Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	18 Hydref 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Adroddiad Cyllid (Medi 2022/23)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi manylion cyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2022/23. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2022/23.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd ar y strategaeth y cytunwyd arni.

3.2 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r cynlluniau i wario grant cyfalaf Ysgolion (£1.799 miliwn) i wella awyru, cefnogi datgarboneiddio a lleihau'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw mewn ysgolion, fel y nodir yn adran 6.9 ac Atodiad 5.

4. Manylion yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2022/23 (Atodiad 1). Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £233.696 miliwn (£216.818 miliwn yn 21/22). Mae rhagolwg y sefyllfa o ran cyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol yn orwariant o £2.661 miliwn (gorwariant o £1.953 miliwn fis diwethaf). Amlinellir y naratif o amgylch y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol sy'n sail i'r asesiad hwn yn adran 6 ac Atodiad 2.

Yr oedd cyllideb 2022/23 yn gofyn am ddod o hyd i arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £0.754 miliwn, a chytuno arnynt, fel y nodir isod:

- Mae Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd (£0.120 miliwn).
- Mae arbedion effeithlonrwydd gweithredol (£0.634 miliwn) wedi'u nodi yn bennaf gan wasanaethau yn ystod y flwyddyn ac o fewn cyfrifoldeb a ddirprwywyd i Benaethiaid Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol.
- Ni ofynnwyd am unrhyw arbedion gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol nac ysgolion.

Tybir bod yr arbedion gweithredol a chynnydd mewn ffioedd a thaliadau wedi'u cyflawni.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol yn sylfaen i waith ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Manylir ar naratifau gwasanaethau arwyddocaol sy'n egluro amrywiadau a risgiau yn Atodiad 2, ond dylid nodi'r canlynol hefyd:

6.1 Effaith y Coronafeirws a Chwyddiant – Rydym yn parhau i hawlio taliadau ar gyfer hunan-ynysu a thaliadau tâl salwch statudol ychwanegol, ynghyd â thaliadau prydau ysgol am ddim uniongyrchol. Fel rhan o gyllideb 22/23, cytunwyd ar gronfa wrth gefn o £1.9

miliwn i ariannu effaith barhaus y pandemig nad oes modd ei hawlio gan Lywodraeth Cymru eleni, ac i gydnabod y cynnydd mewn chwyddiant ar adeg pennu'r gyllideb. Mae'r arwyddion cynnar yn nodi, er bod y risg yn sgil Covid wedi lleihau'n sylweddol, mae'r risg o ran chwyddiant wedi cynyddu'n sylweddol yn bennaf oherwydd y rhyfel yn Wcráin. Bydd y sefyllfa yn parhau i gael ei monitro'n ofalus dros y misoedd nesaf.

6.2 Cyllidebau Corfforaethol – Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd £417 miliwn o arian at raid corfforaethol anchwyddiannol ar gael i'w ryddhau. Mae'r manylion o ran risgiau eraill yn dal yn cael ei dadansoddi:

- Setliadau cyflog ar gyfer 2022/23 – er bod 'cynigion terfynol' wedi eu gwneud, ni chytunwyd ar setliadau cyflog i athrawon a staff nad ydynt yn athrawon eto.
- Galw ar gronfeydd arian at raid ar gyfer ynni a phwysau chwyddiannol eraill (gweler 6.1).

Bydd y rhain yn cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf.

6.3 Addysg a Gwasanaethau Plant – Y rhagdybiaeth alldro presennol yw gorwariant o £2.416 miliwn (£2.457 miliwn o'r blaen). Er bod pwysau ychwanegol o £750,000 wedi'i dderbyn fel rhan o gyllideb gytunedig 2022/23, mae hwn yn dal yn faes sy'n peri pryder. Mae'r rhan fwyaf o'r pwysau (£1.8 miliwn) yn ymwneud â lleoliadau preswyl a lleoliadau maethu annibynnol, sydd naill ai wedi dechrau'n fuan ar ddechrau'r flwyddyn ariannol neu sy'n mynd i bara'n hirach na'r disgwyl. Mae'r pwysau o £584,000 ar gyllideb lleoliadau y tu allan i'r sir wedi ei achosi gan ostyngiad yn nifer y disgyblion o gynghorau eraill sy'n mynd i gyfleusterau CSDd.

6.4 Gwasanaethau Cymorth Cymunedol – Er bod pwysau ychwanegol o £3.127 miliwn wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2022/23, mae'r maes gwasanaeth hwn yn parhau i fod yn faes risg uchel. Fel yr amlygwyd mewn adroddiadau blaenorol, yr oedd cronfa arian parod o £2.440 miliwn ar gael i helpu i ariannu unrhyw bwysau yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth bellach yn rhagweld y bydd yn gorfod defnyddio'r holl gronfa arian parod i ariannu pwysau yn ystod y flwyddyn 2022/23, ac y bydd yn dal i orwario £606,000 (gweler Atodiad 2 am fanylion).

6.5 Ysgolion – Yr oedd y gyllideb y cytunwyd arni gan y Cyngor ar gyfer 2022/23 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o ychydig dros £4.4 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd i grantiau gan Lywodraeth Cymru). Y rhagamcaniad diweddaraf ar gyfer balansau ysgol i'w dwyn ymlaen i 2023/24

yw balans credyd net o £6.430 miliwn, sy'n cynrychioli gostyngiad o £6.018 miliwn yn y balansau a ddygwyd ymlaen o 2022/23, sef £12.448 miliwn. Mae'r symudiad hwn i'w ddisgwyl gan gofio bod y symudiad y llynedd yn ymwneud yn bennaf â derbyn cyllid untro a gwneud arbedion untro gan fod ysgolion wedi bod ynghau am ran helaeth o'r flwyddyn ac, yn benodol, oherwydd nifer o grantiau mawrion a dderbyniwyd ddiwedd mis Mawrth. Rhagwelir yn awr y bydd y grantiau'n cael eu gwario yn y flwyddyn ariannol hon ar ddal i fyny a'r rhaglen adferiad ar ôl Covid yn yr ysgolion. Mae tanwariant bychan o £108,000 ar gyllidebau ysgolion sydd heb eu dirprwyo.

6.6 Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio gostyngiad o £570,000 mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn, sydd £566,000 yn fwy na'r £4,000 ar adeg cymeradwyo'r gyllideb. Mae'r symudiad yn ymwneud â gostyngiad yn incwm rhenti amcangyfrifedig. Felly rhagwelir y bydd Mantolen y Cyfrif Refeniw Tai yn £1.486 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Cyllideb Gyfalaf y CRT o £31 miliwn yn cael ei rhannu'n bennaf rhwng gwelliannau arfaethedig i'r stoc dai bresennol (£18 miliwn) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£13 miliwn).

6.7 Rheoli'r Trysorlys – Ar ddiwedd mis Medi, roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £247.391 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.78%. Roedd y balansau buddsoddi yn £23.3 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 1.76%.

6.8 Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor ar gael yn Atodiad 3. Mae'r Cynllun Cyfalaf cymeradwy yn £69.6 miliwn gyda'r gwariant hyd yma'n £11.4 miliwn. Mae Atodiad 4 yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf cyffredinol. Cynyddwyd cronfa wrth gefn y Cynllun Cyfalaf o £1.676 miliwn i £2.176 miliwn (mwy na'r £0.500 miliwn y cytunwyd arno fis Chwefror) yn sgil cario elfen heb ei neilltuo o'r grant cyfalaf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru fis Mawrth ymlaen. Ar ôl gwneud dyraniad i'r Prosiect Gwastraff, bydd y gronfa wrth gefn o £1 filiwn yn helpu i liniaru risgiau i'r rhaglen gyffredinol yn sgil y chwyddiant ar gostau cyfalaf.

6.9 Mae Bwrdd y Gyllideb wedi adolygu a chefnogi achos busnes ar gyfer gwario grant cyfalaf o £1.799 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Y cynnig yw gwella awyru, cefnogi datgarboneiddio a lleihau'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw mewn ysgolion. Nodir y cynigion yn Atodiad 5, a'u hargymell yn 3.2.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Cafodd Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor eu cyflwyno i'r Cyngor ar 25 Ionawr.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy'r flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Mae pandemig Covid-19 wedi parhau i effeithio ar y lefel o ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Ond er hynny mae cynlluniau ar waith i ymgysylltu'n gynnar gyda'r holl fudd-ddeiliaid yn ystod proses gyllidebol 2023/24.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae pwysau penodol yn dal yn amlwg yng nghyllidebau gofal cymdeithasol (Oedolion a Phlant). Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y meysydd hyn dros y blynyddoedd diwethaf a disgwylir y bydd yr angen yn parhau. Mae'r pwysau cychwynnol eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a bydd y rhain yn cael eu hadolygu, a bydd y pwysau ar y ddau wasanaeth yn cael eu monitro'n agos a'u hadolygu yn ystod y misoedd nesaf. Mae'r materion hyn, ynghyd â phwysau chwyddiant drwy'r holl wasanaethau, yn dod yn fwyfwy anodd ei hariannu wrth i'n cyllid fethu cadw ar yr un lefel â phwysau chwyddiant, pwysau gwasanaethau a phwysau demograffig.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol iawn yn ariannol ac mae ansicrwydd mewn perthynas ag effaith cynnydd mewn chwyddiant, Brexit a strategaeth ariannol Llywodraeth y DU wrth ymdrin â'r effaith ariannol hirdymor ar gyllid cyhoeddus o'r ymateb i Covid, yr argyfwng costau byw, a chyhoeddiadau diweddar ynglŷn â pholisi treth. Er bod y rhagolygon ariannol yn ansicr, mae ein sefyllfa ariannol yn iach ar gyfer 22/23, ac mae proses gyllideb

3/5 mlynedd gadarn i helpu i ddiwallu'r heriau sydd o'n blaenau wedi cael ei chymeradwyo'n ddiweddar gan y Tîm Arwain Strategol, y Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Cabinet ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi craffu arni.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.